COVID-19 Update: 2nd June

Here is the latest COVID-19 update from Cardiff Council, covering: a new click and collect library service is being introduced in Cardiff next week; digital support being provided through the council's AdviceLine; our Independent Living Services help Zoom in on social isolation with online chats; and a reminder that, apart from garden waste, kerbside waste and recycling collections returned to normal this week.

Click and Collect library services

A new click and collect library service is being introduced in Cardiff next week.

From Monday, June 8, library users will be able to order a selection of books to collect from one of the four core hubs that have remained open throughout the lockdown period, as the Council embarks on a phased reopening of services from the city's hubs.

Phase 1 of the recovery will allow customers to pre-order titles either via Cardiff Libraries online catalogue or by calling a new library phone line where they will be offered a selection of five books based on their interests and preferred genres.

Staff on the library line will then arrange an allocated time slot when the books can be collected, from one of the four hubs - Central Library Hub, Ely & Caerau Hub, St Mellons Hub and The Powerhouse, Llandedeyrn. Loans will be for the usual three week period and will need to be returned to the same hub as they were collected from, by appointment.

The new library phone line is 029 2087 1071. Customers should select option 2. The library catalogue is available here https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/en_GB/card_en where residents can also become new members of the library service or reset their PIN.

Books ordered can be delivered to people's homes in Cardiff if they are unable to visit hubs as they are shielding or self isolating. Staff will call or email customers to advise on delivery slots available.

Cabinet Member for Housing and Communities, Cllr Lynda Thorne, said: "We're very pleased to be able to offer this new click and collect library service to customers. We know that people have missed using our hubs and libraries over the last few months so this is a positive step forward as we work on the phased recovery and reopening of our facilities.

"It's important to remember that the four hubs where this new service will be delivered from are not open as normal and the library service is not fully operational again yet. Customers will need to collect and return books at a set time to ensure we can maintain social distancing and help keep our staff and customers safe.

"I'm also pleased that we are able to cater for our older and vulnerable customers by providing a home delivery service, which will enable those shielding or self-isolating

to stay at home. We are also piloting loaning pre-loaded eReaders for housebound customers, which could be extended wider if successful."

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23992.html

AdviceLine takes calls for Digital Support Cardiff

Earlier this year Adult Learning Cardiff launched Digital Support Cardiff to offer services such as digital social clubs, digital surgeries, and basic digital skills sessions in many locations across the city.

Since the Covid-19 pandemic began they have been supporting individuals to develop their digital literacy skills, offer guidance and step-by-step help for those getting to grips with their devices. They've also been supporting the third sector and voluntary sectors such as Cardiff People First and the 50+ network with digital solutions, support and training. Digital Support Cardiff are transitioning the move to services being offered online. The team will be working alongside the Essential Skills team who will be able to support staff with basic digital skills.

The Council's AdviceLine is now taking queries for Digital Support Services. This approach means that even more community members and staff can be supported by telephone rather than relying on digital means to contact them.

The Digital Support Cardiff service is open to all residents of Cardiff and staff members in Cardiff Council who need help with basic digital skills.

Contact Digital Support Cardiff if you would like some help:
Call the AdviceLine and ask for Digital Support on 029 2087 1071.
Email adultlearningcardiff@cardiff.gov.uk
Fill in a query request form at https://form.jotform.com/201123417217038

Website: www.adultlearningcardiff.co.uk
Facebook: @digisupportcardiff
Twitter: @digisupcardiff
Instagram: @digisupportcardiff

Independent Living Services help Zoom in on social isolation with online chats

Virtual meetings, supported by the Council's Independent Living Services, are helping a group of elderly people stay in touch during lockdown.

Weekly chats via the online platform Zoom are ensuring that members of the Memory Lane Social Club, who used to meet every Tuesday at Cathays Community Centre before the COVID-19 crisis, get to see friendly, familiar faces and get invaluable social interaction at this difficult time.

The weekly meets pre-Coronavirus were supported by staff from Independent Living Services and held for people with dementia and their carers to take part in different activities such as bowls, singing, dancing and reminiscing over a cup of tea. Community engagement officers from ILS' Day Opportunities team regularly signposted people to the get together.

Now the get together has moved online to Zoom meetings organised by Phill Racz, who runs the group, where members take part in in quizzes, listen to music and have a chat.

Jo Davies, Community Coordinator for Independent Living Services, said: "I join Phill in the meeting to support the group. The members who took part said it was great to see people's faces."

The Memory Lane Social Club takes place every Tuesday at 2pm. For more information contact Phill.Racz@cathays.org.uk

General Waste, Recycling and Food Waste collections back to normal

On Monday 1st June, weekly kerbside collections for recyclables and food waste returned to normal service and residents are reminded to put the correct items in the containers provided, so the council can recycle and compost as much waste as possible.

This means that residents are being asked to begin using their brown kerbside food caddies again from Monday, and to make sure all their recyclables go into their green bags for collection.

Cardiff's recycling sorting facility, which is where the city's green bags are sorted and processed for recycling, is being re-opened which means that recyclable waste will no longer be sent to an energy recovery facility.

This measure was only put in place to protect our staff and the public during the council's response to the COVID-19 pandemic.

Waste collected in the black bin or red striped bags will now go back to being collected once every fortnight and residents are reminded that any side waste will not be collected.

A list of questions and answers have been provided on the changes to kerbside collections which can be read here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23899.html

Diweddaraf COVID-19: 2 Mehefin

Dyma'r diweddaraf ar COVID-19 gan Gyngor Caerdydd: mae gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu newydd yn cael ei gyflwyno yng Nghaerdydd yr wythnos nesaf;

Llinell Gyngor yn derbyn galwadau ar ran Cymorth Digidol Caerdydd; Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol drwy sgwrsio ar-lein; a Newidiadau i gasgliadau gwastraff oddi ar ymyl y ffordd o 1 Mehefin.

Gwasanaethau Llyfrgell Clicio a Chasglu

Mae gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu newydd yn cael ei gyflwyno yng Nghaerdydd yr wythnos nesaf.

O ddydd Llun 8 Mehefin bydd defnyddwyr llyfrgelloedd yn gallu archebu detholiad o lyfrau i'w casglu o un o'r pedwar hyb craidd sydd wedi aros ar agor drwy gydol y cyfnod cloi, wrth i'r Cyngor ddechrau ar y broses o ailddechrau gwasanaethau fesul cam o hybiau'r ddinas.

Bydd cam 1 yr adferiad yn galluogi cwsmeriaid i archebu llyfrau ymlaen llaw naill ai drwy gatalog ar-lein Llyfrgelloedd Caerdydd neu drwy ffonio llinell ffôn llyfrgell newydd lle byddant yn cael cynnig dewis o bum llyfr yn seiliedig ar eu diddordebau a genres a ffefrir.

Yna bydd staff y llinell llyfrgell yn trefnu slot amser pan fydd modd casglu'r llyfrau, o un o'r pedwar hyb - Hyb y Llyfrgell Ganolog, Hwb Trelái a Chaerau, Hwb Llaneirwg a The Powerhouse, Llanedern. Ceir benthyg y llyfrau am y cyfnod arferol sef tair wythnos a bydd angen eu dychwelyd i'r un hyb y cawson nhw eu casglu ohono, trwy apwyntiad.

Y llinell ffôn llyfrgell newydd yw 029 2087 1071. Dylai cwsmeriaid ddewis opsiwn 2. Mae catalog y llyfrgelloedd ar gael yma https://wales.ent.sirsidynix.net.uk/client/cy_GB/card_cy/ lle gall trigolion hefyd ddod yn aelodau newydd o'r gwasanaeth llyfrgell neu ailosod eu PIN.

Gellir dosbarthu llyfrau i gartrefi pobl yng Nghaerdydd os na allant ymweld â'r hybiau am eu bod yn hunan-warchod neu'n hunan-ynysu. Bydd staff yn ffonio neu'n e-bostio cwsmeriaid i roi gwybod am y slotiau dosbarthu sydd ar gael.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, y Cynghorydd Lynda Thorne: "Rydyn ni'n falch iawn o allu cynnig y gwasanaeth llyfrgell clicio a chasglu newydd hwn i gwsmeriaid. Rydym yn gwybod bod pobl wedi methu defnyddio ein hybiau a'n llyfrgelloedd dros y misoedd diwethaf felly mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen wrth i ni weithio ar y gwaith o adfer ac ailagor ein cyfleusterau fesul cam.

"Mae'n bwysig cofio nad yw'r pedwar hyb lle bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei ddarparu ohonynt ar agor fel arfer ac nid yw'r gwasanaeth llyfrgell yn gwbl weithredol eto. Bydd angen i gwsmeriaid gasglu a dychwelyd llyfrau ar amser penodol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol a helpu i gadw ein staff a'n cwsmeriaid yn ddiogel.

"Rwyf hefyd yn falch ein bod yn gallu bodloni anghenion ein cwsmeriaid hŷn ac agored i niwed drwy ddarparu gwasanaeth dosbarthu i'r cartref, fydd yn galluogi'r rhai sy'n hunan-warchod neu'n hunan-ynysu i aros gartref. Rydym hefyd yn treialu

benthyca teclynnau darllen â llyfrau wedi'u llwytho arnynt i gwsmeriaid sy'n gaeth i'r tŷ, y gellid ei gyflwyno'n ehangach, os bydd yn llwyddiannus."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23993.html

Llinell Gyngor yn derbyn galwadau ar ran Cymorth Digidol Caerdydd

Yn gynharach eleni lansiodd Dysgu i Oedolion Caerdydd Gymorth Digidol Caerdydd i gynnig gwasanaethau fel clybiau cymdeithasol digidol, cymorthfeydd digidol a sesiynau sgiliau digidol sylfaenol mewn sawl lleoliad ar draws y ddinas.

Ers i bandemig Covid-19 ddechrau, maent wedi bod yn cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd digidol, cynnig arweiniad a chymorth gam wrth gam i'r rhai sy'n dysgu sut i ddefnyddio eu dyfeisiau. Maent hefyd wedi bod yn cefnogi'r trydydd sector a'r sectorau gwirfoddol megis Cardiff People First a'r rhwydwaith 50+ gydag atebion digidol, cymorth a hyfforddiant. Mae Cymorth Digidol Caerdydd yn pontio i gynnig gwasanaeth ar-lein. Bydd y tîm yn cydweithio â'r tîm Sgiliau Hanfodol a fydd yn gallu helpu staff gyda sgiliau digidol sylfaenol.

Mae Llinell Gyngor y Cyngor bellach yn derbyn ymholiadau ar ran y Gwasanaethau Cymorth Digidol. Mae'r dull hwn yn golygu y gall hyd yn oed mwy o aelodau o'r gymuned a staff gael eu cefnogi dros y ffôn yn hytrach na dibynnu ar ddulliau digidol er mwyn cysylltu.

Mae gwasanaeth Cymorth Digidol Caerdydd yn agored i holl drigolion Caerdydd ac aelodau o staff Cyngor Caerdydd sydd angen help gyda sgiliau digidol sylfaenol.

Cysylltwch â Cymorth Digidol Caerdydd os hoffech gael help:
Ffoniwch y Llinell Gyngor a gofyn am Gymorth Digidol ar 029 2087 1071.
E-bostiwch: dysguioedolioncaerdydd@caerdydd.gov.uk
Llenwch ffurflen ymholi yn: https://form.jotform.com/201123417217038

Gwefan: https://www.adultlearningcardiff.co.uk/cy/
Facebook: @digisupportcardiff
Twitter: @digisupcardiff
Instagram: @digisupportcardiff

Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol drwy sgwrsio ar-lein

Mae cyfarfodydd rhithwir, a gefnogir gan Wasanaethau Byw'n Annibynnol y Cyngor, yn helpu grŵp o bobl oedrannus i gadw mewn cysylltiad yn ystod cyfnod y cloi.

Mae'r sgyrsiau wythnosol a gynhelir ar-lein ar blatfform Zoom yn sicrhau bod aelodau Clwb Cymdeithasol Memory Lane, a arferai gyfarfod bob dydd Mawrth yng Nghanolfan Gymunedol Cathays cyn argyfwng COVID-19, yn cael gweld wynebau

cyfeillgar, cyfarwydd a chael cyfle amhrisiadwy i ryngweithio'n gymdeithasol yn ystod cyfnod anodd hwn.

Cyn y Coronafeirws, roedd y cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cefnogi gan staff Gwasanaethau Byw'n Annibynnol ac yn cael eu cynnal i roi cyfle i bobl â demensia a'u gofalwyr gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau megis bowls, canu, dawnsio a hel atgofion dros baned o de. Roedd swyddogion ymgysylltu â'r gymuned y tîm yn cyfeirio pobl yn rheolaidd at y cyfarfodydd.

Bellach mae'r cyfarfodydd cael eu cynnal ar-lein ar Zoom a drefnir gan Phill Racz, sy'n rhedeg y grŵp, lle mae aelodau'n cymryd rhan mewn cwisiau, yn gwrando ar gerddoriaeth ac yn cael sgwrs.

Dywedodd Jo Davies, Cydlynydd Cymunedol Gwasanaethau Byw'n Annibynnol: "Rwy'n ymuno â Phill yn y cyfarfod i gefnogi'r grŵp. Dywedodd yr Aelodau a gymerodd ran ei bod yn wych gweld wynebau pobl. "

Cynhelir Clwb Cymdeithasol Memory Lane bob dydd Mawrth am 2pm. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Phill.Racz@cathays.org.uk

Newidiadau i gasgliadau gwastraff oddi ar ymyl y ffordd o 1 Mehefin

O ddydd Llun 1 Mehefin, bydd casgliadau wythnosol wrth garreg y drws ar gyfer deunydd ailgylchadwy a gwastraff bwyd yn dychwelyd i'r gwasanaeth arferol, a dylai preswylwyr gofio i roi'r eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir fel y gall y Cyngor ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl.

Gofynnir i breswylwyr ddechrau defnyddio eu cadis bwyd brown ar ymyl y ffordd unwaith eto o ddydd Llun, a gwneud yn siŵr bod eu holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn mynd i mewn i'w bagiau gwyrdd i'w casglu.

Mae cyfleuster didoli ailgylchu Caerdydd, lle caiff bagiau gwyrdd y ddinas eu didoli a'u prosesu i'w hailgylchu, yn cael eu hailagor sy'n golygu na fydd gwastraff ailgylchadwy yn cael ei anfon i gyfleuster adfer ynni mwyach.

Rhoddwyd y mesur hwn ar waith er mwyn diogelu ein staff a'r cyhoedd yn ystod ymateb y Cyngor i'r pandemig COVID-19.

Bydd gwastraff a gesglir yn y biniau du neu fagiau streipiau coch yn awr yn mynd yn ôl i gael ei gasglu unwaith bob pythefnos a dylai preswylwyr gofio na fydd unrhyw wastraff ochr yn cael ei gasglu.

Mae rhestr o gwestiynau ac atebion ar y newidiadau i gasgliadau ymyl y ffordd yma: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23900.html